Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

AGENDA

# PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET

## 2.00 PM DYDD MERCHER, 5 IONAWR 2022

## O BELL TRWY TEAMS

**Rhaid gosod pob ffôn symudol ar y modd distaw ar gyfer parhad y cyfarfod**

**Rhan 1**

1. Croeso a galw'r rhestr

2. Cyhoeddiad y Cadeirydd

3. Datganiadau o fuddiannau

4. Cofnodion y cyfarfod blaenorol *(Tudalennau 3 - 24)*
   - 1 Medi 2021
   - 22 Medi 2021
   - 17 Tachwedd 2021

5. Craffu Cyn Penderfynu
   - Dewis eitemau priodol o agenda'r Cabinet ar gyfer craffu cyn penderfynu (amgaeir adroddiadau ar gyfer yr Aelodau Craffu)

6. Eitemau brys
   Unrhyw eitemau brys (boed yn gyhoeddus neu wedi'u heithrio) yn ol disgresiwn y Cadeirydd yn unol ag Adran 100B (4) (b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**K.Jones**
**Prif Weithredwr**

**Canolfan Ddinesig**
**Port Talbot** **Dydd Iau, 23 Rhagfyr 2021**

**<u>Aelodaeth y Pwyllgor:</u>**

**Cadeirydd:** **S.Rahaman**

**Is-gadeirydd:** **S.E.Freeguard**

**Cynghorwyr:** N.T.Hunt, S.K.Hunt, D.Keogh, C.James, S.A.Knoyle, A.Llewelyn, S.Miller, R.Mizen, S.Paddison, L.M.Purcell, S.H.Reynolds, R.L.Taylor, A.N.Woolcock a/ac W.F.Griffiths

**<u>Nodiadau:</u>**

*(1) Os yw aelodau'r pwyllgor neu'r rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor am gynnig eitemau perthnasol i'w cynnwys ar yr agenda cyn cyfarfodydd y dyfodol, rhaid iddynt roi gwybod i'r Prif Weithredwr/Cadeirydd 8 niwrnod cyn y cyfarfod.*

*(2) Os yw'r rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor am fod yn bresennol ar gyfer eitem o ddiddordeb, mae'n rhaid rhoi rhybudd ymlaen llaw (erbyn 12 hanner dydd ar y diwrnod cyn y cyfarfod). Gall y rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor siarad ond nid oes ganddynt hawl i bleidleisio, cynnig nac eilio unrhyw gynnig.*

*(3) Fel arfer, ar gyfer trefniadau cyn craffu, bydd y Cadeirydd yn argymell eitemau gweithredol sydd ar ddod i'w trafod/herio. Mae hefyd yn agored i aelodau'r pwyllgor ofyn i eitemau gael eu trafod - er y gofynnir i'r aelodau ddewis a dethol yma o ran materion pwysig.*

*(4) Gwahoddir aelodau perthnasol Bwrdd y Cabinet hefyd i fod yn bresennol yn y cyfarfod at ddibenion Craffu/Ymgynghori.*

*(5) Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor Craffu ddod â'u papurau ar gyfer Bwrdd y Cabinet i'r cyfarfod.*

**Cabinet Scrutiny Committee**

**(Via Microsoft Teams)**

| **Members Present:** | **1 September 2021** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **Chairperson:** | **Councillor S.Rahaman** |
| **Vice Chairperson:** | **Councillor S.E.Freeguard** |
| **Councillors**: | N.T.Hunt, S.K.Hunt, D.Keogh, A.Llewelyn, S.Miller, R.Mizen, S.Paddison, L.M.Purcell, S.M.Penry, S.H.Reynolds, A.N.Woolcock and W.F.Griffiths |
| **Officers In Attendance** | K.Jones, A.Jarrett, A.Thomas, N.Pearce, H.Jenkins, C.Griffiths, C.Jones, J.Woodman-Ralph, H.Hasan, C.Plowman and C.Davies |
| **Cabinet Invitees:** | Councillors C.Clement-Williams, M.Harvey, D.Jones, L.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees, P.D.Richards and A.Wingrave |

---

1. **Pre-decision Scrutiny**

The Committee scrutinised the following Cabinet Board items:

Management of Risk and Liabilities of disused Mine and Quarry Tips within the Authority and the future management of Coal Tip Safety.

Members were advised of the risks and liabilities associated with the historic coal and quarry waste tips within the Authority. Members were also update on the work of the Welsh Government Coal Tip Safety Task Force and the Law Commissions consultation exercise on the future management of Coal Tip Safety in Wales, as detailed within the circulated report.

Members shared concerns around the responsibilities that now lay with private owners and the Local Authority. It was felt that the purpose of the Coal authority were to manage these sites, however the land owners were now required to maintain these spoils which

have an impact on cost. It was asked that these concerns be raised with the Law Commission. Officers understood the concerns raised by members and reassured members that they had also raised the same concerns with Welsh Government. It was noted that discussions had taken place around potential funding that maybe available to help fund these costings imposed on the private land owners.

Members expressed that they would like consideration to be given in writing to the Law commission, raising the concerns around the responsibilities around monitoring and maintenance that now lie with the land owners.

Members asked what monitoring were in place around the spoil tips of open cast mining. It was noted that the large open cast mines within the County Borough are designed to be stable, copies of the plans of the mines were sent to National Resources Wales (NRW) and the Coal Authority to ensure the safety for future generations.

Confirmation was sought around whether Category C and D tips that weren't included in the bids would still be inspected. Reassurance was provided and officers confirmed that inspections of all Category C and D tips would continue dependant on future funding.

Discussions took place around the 7% of tips that are unregistered and what monitoring would be required. Officers highlighted that the Council currently doesn't have a duty where it would be required to take responsibility. However, it was noted that the Council may well wish to step in on these occasions for preventative safety measures. Therefore, it was noted that within the consultation response officers would reiterate these concerns and ask that the responsibilities be reconsidered due to the lack of resources and experience with in the Council. Allowing responsibility to be with Welsh Government and the Coal Authority.

Members asked where the coal tips were located in Neath Port Talbot. Officers explained that there were 404 Coal Tips located all over Neath Port Talbot and explained that identification of the locations were unavailable at this time, however can be shown outside the meeting. Officers also explained the details of the categories of the Coal Tips.

Members discussed what monitoring was in place for the voids left from previous tips as there were concerns around the body

responsible for those. Officer explained that the responsibility is with the coal authority, however, they would raise this issue within the consultation response for clarity.

Members provided reassurance to officers that the concerns raised today would be lobbied to the local MP's to raise their awareness of these issues.

Following scrutiny, members were in support of the recommendations subject to the additional wording to point 35 of the recommendation detailed in the report and an additional recommendation, as detailed below:

- That due to the timescales involved in preparing NPT's response to the Law Commissions consultation, that delegated power be granted to the Director of Environment and Regeneration to prepare and submit a response to the Law Commissions consultation exercise in consultation with the Cabinet Member for Streetscene and Engineering. With such a response addressing concerns on the financial responsibility of the maintenance being passed to land owners.

- That the Consultation Response be submitted to the MP's in Neath and Port Talbot for consideration.

2. **<u>Urgent Items</u>**

Because of the need to deal now with the matter contained in Minute No 4 below, the Chairperson agreed these could be raised at today's meeting as urgent items pursuant to Section 100B (4) (b) of the Local Government Act 1972.

<u>Reason:</u>
Due to the time element.

3. **<u>Access to Meetings</u>**

**RESOLVED:** that pursuant to Section 100A(4) and (5) of the Local Government Act 1972, the public be excluded for the following items of business which involved the likely disclosure of exempt information as defined in Paragraph 14 of Part 4 of Schedule 12A to the above Act.

4. **Pre-decision Scrutiny**

The Committee scrutinised the following urgent Cabinet Board item:

NPTCBC Support of the United Kingdom's Afghan Relocation and Assistance Policy (ARAP)

Members discussed the urgent report and received information in respect of the implementation of the Afghan Relocation and Assistance Policy, as detailed within the private report.

Following Scrutiny, the Committee was supportive of the proposals to be considered by the Cabinet Board

**CHAIRPERSON**

## PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET

**(O Bell Trwy Teams)**

| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **Dydd Mercher, 22 Medi 2021** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.E.Freeguard** |
| **Cynghorwyr**: | N.T.Hunt, S.K.Hunt, D.Keogh, S.A.Knoyle, A.Llewelyn, S.Miller, R.Mizen, S.Paddison, S.M.Penry, S.H.Reynolds, R.L.Taylor, A.N.Woolcock a/ac W.F.Griffiths |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | K.Jones, A.Jarrett, A.Thomas, N.Pearce, H.Jenkins, C.Griffiths, H.Jones, C.Furlow-Harris, C.Morris, C.Davies, J.Woodman-Ralph, N.Blackmore, R.Headon, P.Hinder, M.Shaw a/ac S.Davies |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr C.Clement-Williams, M.Harvey, D.Jones, L.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees a/ac A.Wingrave |

---

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Hysbyswyd y Pwyllgor am newid i'r adroddiad canlynol ar Agenda Bwrdd y Cabinet:

- Eitem 10 ar yr Agenda – Adroddiad Blynyddol y Cynllun Corfforaethol

Roedd addasiad i'w wneud i'r frawddeg ganlynol ar dudalen 56 yr adroddiad a ddosbarthwyd:

'Ar draws y tri amcan lles ar gyfer 2020/21, mae 64% (53 o 83) o'n 'camau', h.y. y camau strategol a bennwyd gennym i gyflawni'n blaenoriaethau gwella ar y trywydd iawn, mae 24 o'r camau 'ychydig oddi ar' y trywydd iawn' ac mae 6 ohonynt oddi ar y trywydd iawn'

Roedd y frawddeg i'w haddasu i'r canlynol:

'Ar draws y tri amcan lles ar gyfer 2020/21, mae 65% (54 o 83) o'n 'camau', h.y. y camau strategol a bennwyd gennym i gyflawni'n blaenoriaethau gwella ar y trywydd iawn, mae 24 o'r camau 'ychydig oddi ar' y trywydd iawn ac mae 5 ohonynt oddi ar y trywydd iawn'

Byddai angen gwneud yr un addasiad hefyd i dudalennau 66 a 182 o'r adroddiad a ddosbarthwyd.

Yn dilyn y diweddariad, roedd yr Aelodau'n hapus â'r newidiadau, felly dewiswyd peidio â chraffu ar yr adroddiad.

## 2. <u>COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL</u>

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 9 Mehefin 2021, 30 Mehefin 2021 a 28 Gorffennaf 2021, gyda'r diwygiad canlynol i gofnodion 30 Mehefin 2021:

Wrth graffu ar yr eitem agenda sy'n ymwneud â 'Buddsoddiadau o Gronfeydd Wrth Gefn 2021/22', trafododd y Pwyllgor Gronfa Codi'r Gwastad. Gofynnodd yr Aelodau a ellid cynnwys y pwyntiau canlynol yn naratif y cofnodion:

- *Nodwyd bod aelodau wedi mynegi eu siom yn ystod y cyfarfod mai dim ond 25% o gymhwysedd Cronfa Codi'r Gwastad y gwnaed cais amdano; fodd bynnag, darparodd Swyddogion atebion trylwyr a oedd wedi bodloni'r Aelodau.*
- *Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg ac Adfywio fod £125,000 ar gael ar gyfer gwaith ymgynghori a fydd yn caniatáu i Swyddogion weithio drwy gynlluniau manwl unrhyw gyllid yn y dyfodol e.e. Y Gronfa Ffyniant Gyffredin*
- *Roedd yr Aelodau am fynegi eu diolch i Swyddogion a Chyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio.*

## 3. <u>CRAFFU CYN PENDERFYNU</u>

Craffodd y Pwyllgor ar yr eitemau canlynol ar agenda Bwrdd y Cabinet:

<u>Adroddiad Monitro a Diweddaru'r Gyllideb Refeniw 2021/2022</u>

Cafodd yr Aelodau'r wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â rhagamcanion cyfredol y gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22.

Soniodd swyddogion fod yr Adroddiadau Monitro a Diweddaru'r Gyllideb Refeniw yn cael eu darparu i'r Aelodau bob mis oherwydd effaith COVID-19.

Tynnwyd sylw at y ffaith mai £1.583m oedd y tanwariant a ragwelwyd ar hyn o bryd eleni; roedd hyn yn rhannol oherwydd ad-dalu colli incwm a'r gwariant o Gronfa Galedi Llywodraeth Cymru. Roedd yr adroddiad a ddosbarthwyd yn nodi bod y cyngor, hyd yma, wedi cael ad-daliad o £2.4m, ac y cytunwyd hefyd ar hawliad colli incwm o £1.221m ar gyfer chwarter un.

Mewn cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor, hysbyswyd yr Aelodau fod £12m ychwanegol wedi'i glustnodi’r ddiweddar i'r cyngor oddi wrth Llywodraeth Cymru; Gofynnodd yr Aelodau a oedd yr arian ychwanegol hwn wedi'i adlewyrchu yn nhanwariant a gorwariant yr adroddiad a ddosbarthwyd, ac os nad oedd, a ellid ei roi yn y cronfeydd wrth gefn i wrthbwyso'r beichiau y gall preswylwyr eu hwynebu wrth symud ymlaen, megis Treth y Cyngor.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod yr Aelodau wedi cael gwybod am y £12m ychwanegol a roddwyd mewn cronfeydd wrth gefn yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mehefin 2021; yn ystod y cyfarfod hwn, dywedwyd bod yr arian hwn wedi'i neilltuo i gronfeydd wrth gefn penodol ar draws y gwahanol feysydd gwasanaeth. Cadarnhaodd swyddogion fod yr arian hwn yn dal i fod yn y cronfeydd wrth gefn, ac eithrio'r symudiadau wrth gefn fel y nodir ar dudalennau 26 a 27 o'r adroddiad a ddosbarthwyd. Ychwanegwyd bod adroddiad a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 30 Mehefin 2021 hefyd wedi nodi'r defnydd o tua £4m o gronfeydd wrth gefn, a ddangoswyd yn yr cronfeydd wrth gefn a nodwyd yn Atodiad 3 yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Hysbyswyd y Pwyllgor fod y cronfeydd wrth gefn penodol a ragwelwyd tua £54m ar hyn o bryd; ni fydd y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn yn hysbys tan fis Mai 2022. Soniwyd y bydd y cyngor yn pennu’i gyllideb ar gyfer 2022/23 ar ddechrau mis Mawrth 2022, a oedd cyn diwedd y flwyddyn ariannol hon.

Drwy roi diweddariadau misol i aelodau, roedd yn rhoi gwybodaeth iddynt am beth fydd y sefyllfa a ragwelir ar gyfer cyfarfod pennu'r gyllideb ym mis Mawrth; bydd cyfleoedd i adolygu lefel y cronfeydd wrth gefn sy'n cael eu defnyddio er mwyn ategu'r gyllideb sylfaenol a/neu ar gyfer mentrau penodol y mae'r cyngor yn eu cynnig. Fodd bynnag, nodwyd y dylai Aelodau fod yn ymwybodol o'r gostyngiad mewn cronfeydd wrth gefn a chynaliadwyedd ariannol y cyngor.

Amlygwyd bod tanwariant o £17 mil ar gymhorthion a chyfarpar yn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai. Gofynnwyd a oedd gan yr Awdurdod y ddarpariaeth i adennill ac ailddefnyddio unrhyw gyfarpar pan fydd preswylydd yn marw. Esboniodd swyddogion fod y tanwariant rhagweledig yn ganlyniad i ddyrannu arian ychwanegol i'r gyllideb honno yn ystod blynyddoedd blaenorol. Cadarnhawyd bod mecanweithiau ar waith i ailddefnyddio peth cyfarpar, ond weithiau nid oedd yn ariannol ddichonadwy. Cytunodd swyddogion i roi rhagor o fanylion i'r Aelodau ynghylch pa fath o gyfarpar y gellid eu hailddefnyddio.

O ran y gorwariant o £75 mil ar barciau a mannau agored, holwyd a oedd y gost o ddelio â chlefyd coed ynn yn mynd i fod yn broblem barhaus, ac a fydd y cyngor yn gallu talu costau mynd i'r afael a phroblemau a fydd yn codi yn y dyfodol. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio fod rhaglen waith ar gyfer y broblem clefyd coed ynn; roedd hwn yn brosiect mawr a fyddai'n cael ei gyflwyno dros nifer o flynyddoedd, o ystyried maint asedau'r cyngor, lefel y goedwigaeth a'r gyllideb. Soniwyd y byddai'r cyngor yn parhau i geisio sicrhau cyllid oddi wrth Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) lle bo hynny'n bosib; llwyddodd y cyngor i sicrhau cyllid grant ychwanegol ddiwedd y llynedd, a oedd wedi cyfrannu at y gost gyffredinol o ddelio â chlefyd coed ynn.

Cynhaliwyd trafodaeth ynglŷn â chraffu ar adroddiadau cyllideb unigol y Gyfarwyddiaeth; derbyniodd pob Pwyllgor Craffu adroddiad cyllideb a oedd yn berthnasol i'w cylch gwaith, a rhoddwyd darlun manylach iddynt o'r gwahanol orwariant a thanwariant yn y meysydd gwasanaeth. Fodd bynnag, nodwyd bod Pwyllgor Craffu'r Cabinet wedi cael cyfle i graffu ar holl adroddiadau cyllideb y Gyfarwyddiaeth, hyd yn oed ar ôl iddynt gael eu harchwilio gan y Pwyllgor Craffu perthnasol.

Tynnwyd sylw at y ffaith nad oedd rhai Aelodau o Bwyllgor Craffu'r Cabinet yn aelodau o Bwyllgor Craffu arall; a oedd yn ei gwneud hi'n anodd ar adegau i nodi pryd/ble y craffwyd ar adroddiadau cyllideb. Nodwyd y bydd Swyddogion yn ystyried adroddiadau sy'n mynd gerbron cyfarfodydd pob un o'r Pwyllgorau Craffu eraill yn y dyfodol, er mwyn i'r Aelodau adolygu'r manylion.

Trafododd y Pwyllgor yr incwm Treth y Cyngor cynyddol a nodwyd yn Atodiad 4 yr adroddiad a ddosbarthwyd, fel rhan o'r balans cronfeydd wrth gefn cyffredinol; dangosodd y tabl fod yr incwm Treth y Cyngor cynyddol tua £1m. Eglurodd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau

Corfforaethol fod Cyngor Castell-nedd Port Talbot (CCNPT) wedi pennu cyfradd casglu Treth y Cyngor ar 97% wrth osod sylfaen Treth y Cyngor. Dywedwyd bod Tîm Treth y Cyngor wedi bod yn gwneud gwaith helaeth i gasglu arian a thalu arian i'r cyngor, Cynghorau Cymuned a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu; roedd y gyfradd gasglu tua 97.5% y llynedd a 98% y flwyddyn flaenorol. Hysbyswyd yr Aelodau mai CCNPT oedd y gorau am adennill arian ledled Cymru yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, a'i fod wedi'i nodi fel un o'r pedwar gorau yn ystod y pum mlynedd diwethaf, o ran casglu Treth y Cyngor. Ychwanegodd swyddogion fod yr £1m yn gysylltiedig â chasglu mwy na 97% o Dreth y Cyngor, ac mae'n adlewyrchu'r gwaith caled y mae'r tîm wedi'i wneud; i gasglu'r arian a'i dalu i'r cyrff unigol y mae angen yr arian arnynt.

Diolchodd yr Aelodau i'r Timau Cyllid am eu gwaith caled.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

<u>Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol</u>

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 i'r Pwyllgor ar gyfer y cyfnod 2020-2021.

Codwyd cwestiwn ynghylch cynnydd y cynllun peilot ar ffurflenni cais am swyddi dienw i hwyluso proses recriwtio a dethol deg a thryloyw. Cadarnhaodd swyddogion nad oedd hyn wedi'i weithredu eto gan ei fod yn dibynnu ar gyflwyno'r gronfa ddata Adnoddau Dynol/Cyflogres newydd. Byddai'r Pennaeth Datblygu Dynol a Sefydliadol yn gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bresennol ac yn ei dosbarthu y tu allan i'r cyfarfod.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

<u>Prynu System Gyfarfod Hybrid ac Ailwampio Siambr y Cyngor</u>

Rhoddwyd adroddiad i'r Aelodau ynghylch y cais i brynu system gyfarfod hybrid ac ailwampio Siambr y Cyngor i hwyluso presenoldeb mewn cyfarfodydd hybrid o'r fath.

Esboniodd swyddogion y bu newidiadau amrywiol mewn rhwymedigaethau deddfwriaethol mewn perthynas â chyfarfodydd y cyngor, y byddai angen iddynt fod mewn grym erbyn mis Mai 2022; roedd hyn o ganlyniad i gyflwyno Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 newydd. Soniwyd bod yr adroddiad a ddosbarthwyd hefyd yn ceisio mynd i'r afael â rhywfaint o'r adborth a

gafwyd gan Aelodau a gymerodd ran yn yr Arolwg Aelodau diweddar, mewn perthynas â'r mater hwn. Dywedodd swyddogion y byddai'r system cyfarfodydd hybrid yn cynnig dewis i'r Aelodau o ran sut maent yn mynychu cyfarfodydd; byddent yn gallu ymuno â chyfarfod wyneb yn wyneb, neu ymuno'n rhithwir mewn gwahanol leoliadau fel eu gweithle neu gartref.

Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch cyfranogiad y cyhoedd; tynnwyd sylw at y ffaith y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar y mater hwn yn ystod y misoedd nesaf. Hysbyswyd yr Aelodau fod y cyngor yn dechrau sefydlu ei agenda cyfranogiad, a fydd yn rhoi cyfle i'r cyhoedd siarad mewn cyfarfodydd a chynlluniau deisebau; nod hyn oedd ceisio gwella cyfranogiad mewn democratiaeth. Ychwanegwyd bod hyn hefyd yn un o ofynion y ddeddfwriaeth newydd.

Codwyd y pwysigrwydd o sefydlu system effeithlon o ansawdd uchel ar gyfer cyfarfodydd hybrid. Nodwyd bod y cynnig yn yr adroddiad a ddosbarthwyd yn cwmpasu'r gwahanol opsiynau a ffynonellau yr oedd Swyddogion wedi ymchwilio iddynt; y prif ffocws oedd sicrhau mynediad hwylus i Aelodau Etholedig a'r cyhoedd, a diwallu anghenion y defnyddwyr. Ychwanegwyd y byddai cyfleoedd hyfforddi yn cael eu darparu i'r holl Aelodau ar ôl i system gael ei sefydlu.

Codwyd pryderon ynglŷn â chysylltedd, a sut y gallai hyn fod yn rhwystr i gymryd rhan mewn cyfarfodydd. Cadarnhaodd swyddogion fod llawer o ystyriaeth wedi'i roi i faterion cysylltedd; roedd Grŵp Cyfeirio TG yr Aelodau wedi'i ailsefydlu'n ddiweddar a byddai'n edrych ar wahanol faterion TG. Soniwyd mai un o'r meysydd gwaith cyntaf fyddai datblygu arolwg i'w gyhoeddi i bob Aelod, er mwyn cael dealltwriaeth o'u materion TG, gan gynnwys cysylltedd.

Mewn perthynas â’r drafodaeth ar gysylltedd, dywedwyd bod rhesymau ffisegol gyda BT Openreach o ran pam yr oedd rhai aelwydydd yn cael trafferth gyda chysylltiad; gofynnwyd a oedd modd annog Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â'r mater hwn. Esboniodd swyddogion y byddai'r cyngor yn ymchwilio i benderfyniadau penodol ar gyfer trefniadau sefydlu personol aelodau; lle nodwyd materion na ellid eu datrys yn y tymor byr, bydd Swyddogion yn ymchwilio i adeiladau eraill ar draws y Fwrdeistref Sirol y gallai Aelodau eu defnyddio i gymryd rhan mewn cyfarfodydd. Hysbyswyd yr Aelodau fod y Fargen Ddinesig yn ymgymryd â phrosiect digidol rhanbarthol; un o ddyheadau'r rhaglen ranbarthol honno oedd nodi meysydd lle'r

oedd anawsterau o ran cysylltedd, a sut y gallai'r cyngor weithio o fewn trefniadau'r Fargen Ddinesig i oresgyn y rhain.

Oherwydd natur y materion cysylltedd, awgrymwyd bod y Cabinet yn ystyried cyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru ar y mater hwn.

Yn dilyn pryderon a godwyd ynghylch costau'r cynigion, dywedwyd bod yr Aelod Cabinet dros Gyllid wedi cysylltu â Llywodraeth Cymru i godi'r mater hwn ac wedi holi a oedd rhagor o arian y gellid ei ddefnyddio; byddai'r Aelod Cabinet yn parhau i lobïo Llywodraeth Cymru ar hyn.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

<u>Cyd-bwyllgorau Corfforaethol De-orllewin Cymru</u>

Darparwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am y statws a'r cynnydd presennol mewn perthynas â chreu Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru i'r Aelodau.

Nododd yr adroddiad a ddosbarthwyd y bydd y CBC yn gallu cyfethol aelodau o'r fath i'r CBC a phennu/cytuno ar delerau aelodaeth unrhyw gyfranogwr cyfetholedig (e.e. hawliau pleidleisio, rôl, cyfraniad ariannu etc.); Mynegodd yr Aelodau eu pryderon ynglŷn â rhoi hawliau pleidleisio i Aelodau Cyfetholedig. Soniodd y Prif Weithredwr fod gan bedwar arweinydd y pedwar cyngor, a oedd yn cwmpasu ardal De-orllewin Cymru, yr un pryderon. Amlygwyd, pan nododd Llywodraeth Cymru ei bod yn mynd i osod y trefniadau hyn ar Awdurdodau Lleol, fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) wedi'i gwneud yn glir y byddai'r hyblygrwydd mwyaf yn cael ei ddarparu i'r Aelodau Etholedig lleol i benderfynu sut y byddai'r CBC yn cael ei sefydlu. Fodd bynnag, yr eithriad i hyn oedd sefyllfa Cymdeithasau'r Parciau Cenedlaethol, lle'r oedd rhai hawliau pleidleisio wedi'u rhoi ar gyfer defnydd tir strategol a materion cynllunio sy'n dod o fewn eu cylch.

Cyfeiriwyd at y llythyr ymateb gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog dros Gyllid a Llywodraeth Leol, a nodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad a ddosbarthwyd; nodwyd yn y llythyr mai'r bwriad oedd y byddai'n ofynnol i CBC, mewn ymgynghoriad â'i Gynghorau cyfansoddol, gytuno ar drefniadau trosolwg a chraffu priodol a bennwyd yn lleol. Holodd yr Aelodau a oedd unrhyw ystyriaeth wedi'i rhoi ymlaen llaw, i'r trefniadau craffu priodol y gellid eu rhoi ar waith. Esboniodd swyddogion fod y Swyddogion Monitro wedi bod yn edrych ar wahanol opsiynau ar gyfer ffurfio'r trefniadau hyn; roedd hon wedi

bod yn broses barhaus oherwydd y gwahanol reoliadau a gadarnhawyd ar wahanol adegau yn ystod cyfnod yr haf. Nodwyd bod Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yn arwain ar yr elfen benodol hon o waith, ac wedi dechrau paratoi adroddiad a oedd yn amlinellu nifer o wahanol fodelau craffu i'w hystyried; pan fyddai'r adroddiadau ffurfiol yn cael eu cyflwyno i'r cyfarfodydd perthnasol, bydd yr Aelodau'n cael cyfle i fwydo i mewn i'r prosesau cyn i'r trefniadau gael eu cymeradwyo. Ychwanegwyd bod y cyngor yn aros am ganllawiau wedi'u diweddaru gan Lywodraeth Cymru ar y mater hwn.

Yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, nodwyd bod Swyddogion wedi bod yn cysylltu ag awdurdodau cyfagos ac wedi cynnull grŵp yn cynnwys Prif Weithredwyr, Cyfarwyddwyr yr Amgylchedd, Cyfarwyddwyr Cyllid (Swyddogion A151) a Swyddogion Monitro sy'n cyfarfod bob pythefnos i symud y trafodaethau hyn yn eu blaenau; gofynnwyd pam nad oedd cynrychiolaeth o Aelodau Etholedig yn y grŵp hwn. Cadarnhawyd bod Prif Weithredwyr ac Arweinwyr y pedwar Awdurdod wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd, yn anffurfiol er mwyn i'r Arweinwyr roi arweiniad ar y gwaith a oedd yn cael ei wneud, ac i fwydo i mewn i'r cyngor a oedd yn cael ei baratoi i'r Aelodau ei adolygu; ar hyn o bryd, roedd y gwaith i sefydlu ffurf gysgodol y CBCau yn cael ei ystyried, gan fod y rhan fwyaf o'r rheoliadau wedi'u sefydlu.

Cynhaliwyd trafodaeth ynglŷn â'r effeithiau ar gymunedau'r cymoedd. Nodwyd y bydd effeithiau'r cymoedd yn cael eu nodi'n arbennig yn rhai o'r dyletswyddau penodol a gyflwynwyd gan y ddeddfwriaeth; er enghraifft, rhaid i'r CBCau ddatblygu strategaeth datblygu economaidd ranbarthol, polisi trafnidiaeth rhanbarthol a chynllun defnydd tir strategol rhanbarthol. Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith y byddai diddordeb mewn effeithiau'r cymoedd yn ymwneud â'r ffordd y datblygwyd y darnau penodol hynny o waith, er mwyn sicrhau bod anghenion cymunedau'r cymoedd yn cael eu hadlewyrchu'n briodol yn y gwaith hwnnw.

Cododd yr Aelodau bryderon ynghylch y posibilrwydd o golli staff y cyngor a'u harbenigedd i'r CBCau. Dywedwyd bod y pedwar Arweinydd yn glir iawn y dylai'r cyngor fod yn sefydlu'r CBCau ar y sail angenrheidiol gofynnol yn y lle cyntaf; gan ddarparu’n unig yr adnoddau lle mae'r ddeddfwriaeth yn gofyn amdanynt yn benodol. Fel y soniwyd eisoes, roedd yn ofynnol i ddatblygu strategaeth datblygu economaidd ranbarthol, polisi trafnidiaeth rhanbarthol a chynllun defnydd tir strategol rhanbarthol; bydd y rhain yn ffurfio'r busnes y

mae'n rhaid i'r CBCau ymgymryd ag ef. Cadarnhaodd swyddogion nad oedd sefydlu tîm parhaol o staff ar gyfer y CBCau yn cael ei gynnig ar hyn o bryd, yn hytrach cynigiwyd y byddai'r gwaith yn cael ei rannu ymhlith y pedwar Awdurdod, yn debyg i'r trefniadau gyda'r Fargen Ddinesig; ac yna ystyrir secondio peth o amser staff i'r rolau hynny. Ychwanegodd swyddogion y bydd yr arian yr oedd y cyngor yn ei roi i'r CBCau, fel rhan o'r lefi, yn arian y bydd y cyngor yn ceisio'i adennill a'i hawlio fel cost amser y staff.

Gan ddibynnu ar sut mae'r CBCau yn datblygu, roedd perygl y bydd staff y cyngor yn symud o'u rolau presennol i'r endid arall hwn. Soniwyd bod y farchnad lafur, drwy gydol y pandemig, wedi dod yn llawer mwy cystadleuol; roedd y cyngor yn ei chael hi'n anodd recriwtio i amrywiaeth o rolau ac yn ei chael hi'n anodd cynnal unigolion mewn rhai rolau. Amlygodd hyn bwysigrwydd y cyngor, wrth symud ymlaen, i ddechrau buddsoddi mewn tyfu'r gweithlu.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd y Cylch Gorchwyl a'r Cyfansoddiad ar gyfer y CBCau wedi'u sefydlu, ac a ellid cynnwys barn yr Aelodau er mwyn tynnu sylw at eu pryderon. Esboniodd swyddogion fod y rheoliadau angenrheidiol ar gyfer sefydlu'r CBCau wedi'u datblygu a'u cyfleu dros yr haf; roedd y Swyddogion Monitro wedi dechrau drafftio'r Cyfansoddiad yn seiliedig ar rai o'r egwyddorion yr oedd y pedwar Arweinydd wedi gofyn iddynt gael eu cynnwys. Dywedwyd na fyddai'r Cylch Gorchwyl a'r Cyfansoddiad yn cael eu cymeradwyo nes bod pob un o'r pedwar Awdurdod Lleol ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn eu gweld; Bydd yr Aelodau'n gallu rhoi sylwadau ar y manylion a rhoi eu barn i'r Arweinwyr. Hysbyswyd y Pwyllgor y byddai'r cyfarfod allweddol cyntaf i wneud penderfyniadau ynghylch hyn yn cael ei gynnal cyn dechrau cyfnod y Nadolig.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

4. **<u>BLAENRAGLEN WAITH</u>**

Nododd y Pwyllgor Flaenraglen Craffu'r Cabinet ar gyfer 2021/22.

**CADEIRYDD**

Mae’r dudalen hon yn fwriadol wag

# PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET

**(O Bell Trwy Teams)**

**Aelodau sy’n Bresennol:** **Dydd Mercher, 17 Tachwedd 2021**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.Rahaman** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd S.E.Freeguard** |
| **Cynghorwyr**: | S.K.Hunt, D.Keogh, S.A.Knoyle, A.Llewelyn, S.Miller, R.Mizen, S.Paddison, L.M.Purcell, S.M.Penry, S.H.Reynolds, R.L.Taylor a/ac A.N.Woolcock |
| **Swyddogion sy’n Bresennol:** | K.Jones, A.Jarrett, A.Thomas, N.Pearce, H.Jones, C.Furlow-Harris, R.Headon, S.Davies, T.Davies, C.Plowman, J.Woodman-Ralph, L.Beynon, J.Hodges a/ac M.Roberts |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr C.Clement-Williams, M.Harvey, D.Jones, L.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees a/ac A.Wingrave |

---

## 1. CRAFFU CYN PENDERFYNU

Craffodd y Pwyllgor ar yr eitemau canlynol ar agenda'r Cabinet:

Monitro Cofrestr Risgiau 2021/2022

Rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am Risgiau Strategol y cyngor.

Nododd yr adroddiad a ddosbarthwyd fod nifer sylweddol o bwyntiau pwysau ar draws y cyngor ar hyn o bryd lle nad oedd digon o gyflenwad gweithlu i fodloni Gofynion Gwasanaeth; Holodd yr Aelodau pa gamau a oedd yn cael eu cymryd i leihau'r pwyntiau pwysau. Esboniodd swyddogion fod Seminar Pob Aelod wedi'i drefnu ar gyfer 18 Tachwedd 2021 lle byddai'r Aelodau'n cael eu briffio ar y Gofynion Gwasanaeth presennol a'r cynlluniau wrth symud ymlaen.

Cyfeiriodd yr Aelodau at y buddsoddiad i gefnogi dioddefwyr cam-drin domestig risg uchel drwy Grŵp Arweinyddiaeth VAWDASV (Trais yn

Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol), a gofynnwyd am ragor o wybodaeth am sut y byddai hyn yn cael ei weithredu. Cytunodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai i ddosbarthu gwybodaeth am y mater hwn i'r Aelodau maes o law.

Un o'r triniaethau sy'n gysylltiedig â'r risg cadernid ariannol oedd cynyddu ymgysylltiad dinasyddion â heriau'r gyllideb, gan sicrhau ymrwymiad dinasyddion i ymddygiadau a fydd yn lleihau neu'n dileu'r galw ar wasanaethau'r cyngor; gofynnwyd sut y byddai hyn yn cael ei gyflawni. Nodwyd, o ran ymgysylltu â dinasyddion, fod y cyngor wedi cwblhau'r ymgyrch 'Gadewch i Ni Siarad' yn ddiweddar a oedd yn gofyn i breswylwyr nodi'r hyn a oedd yn bwysig iddynt yn dilyn cychwyniad y pandemig; roedd dros 1,700 o ymatebwyr, yr oedd 500 ohonynt wedi dweud eu bod am i'r cyngor gysylltu â hwy yng ngham nesaf yr ymarfer ymgynghori. Roedd gan y cyngor hefyd Banel Dinasyddion ag oddeutu 500 o aelodau, a Chymuned Ymarfer; cysylltir â'r ddau grŵp ar gyfer ymgysylltu yn y dyfodol. Tynnwyd sylw at y ffaith y bydd yr ymgynghoriad ar y gyllideb a'r ymgynghoriad ar adfer gwasanaethau yn cael ei hyrwyddo gymaint â phosib; gwneir hyn mewn sawl ffordd megis ar-lein, mewn llyfrgelloedd a thrwy'r Cydlynwyr Ardaloedd Lleol (CALl). Ychwanegodd swyddogion y bydd y cyngor, dros gyfnod y gaeaf, yn cynnal ymgyrch tri mis er mwyn ymgysylltu â'r cyhoedd a sicrhau eu bod yn ymwybodol o sut mae'r cyngor yn effeithio ar eu bywydau a'u bod yn ymwybodol o'r gwaith yr oedd y cyngor wedi'i wneud yn ystod y pandemig.

Cadarnhaodd swyddogion fod y driniaeth restredig ganlynol sy'n gysylltiedig â'r risgiau cadernid ariannol yn gysylltiedig ag Aelodau Etholedig a holl randdeiliaid y cyngor; er mwyn gwella ansawdd y dystiolaeth a gafwyd i enghreifftio heriau cadernid ariannol y cyngor a sicrhau bod y rhai sy'n ymwneud â'r penderfyniadau ar gyllidebau llywodraeth leol yn deall hyn.

Cododd y Pwyllgor bryderon ynghylch darllenadwyedd y Gofrestr Risgiau Strategol a darparodd awgrymiadau a fyddai'n caniatáu i Aelodau ddehongli'r ddogfen a chael gwell dealltwriaeth o'r darlun cyffredinol, a fyddai felly'n eu galluogi i'w monitro'n fwy effeithiol. Dywedodd swyddogion y byddent yn cynnwys geiriau esboniadol yn yr adroddiad yn y dyfodol ac yn rhoi cymaint o eglurder â phosib yn seiliedig ar yr adborth a ddarparwyd gan yr Aelodau.

Amlygodd yr adroddiad a ddosbarthwyd y gwaith o reoli Tirlithriadau a Chwareli ar dir sy'n eiddo i'r cyngor; gofynnwyd a ddylid cynnwys

Tomenni Glo yn y driniaeth hon. Soniodd swyddogion fod adran sylwadau'r driniaeth hon yn dangos bod y cyngor yn cynnal arolygiadau mewn perthynas â Thomenni Glo, ac yn rheoli'r asedau'n ofalus; dyma un o argymhellion y gwaith diweddar yr oedd yr Awdurdod Glo wedi bod yn ei wneud yn genedlaethol. Nodwyd bod Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn gwneud hyn cyn i'r tasglu gael ei sefydlu gan yr Awdurdod Glo; yr arfer da a oedd wedi bod ar waith yn y cyngor hwn a oedd wedi arwain at ffurfio rhai o argymhellion y tasglu. Roedd swyddogion yn hyderus bod y sylwadau yn y gofrestr risgiau yn gyfredol, ond yn y dyfodol byddai'n cyfeirio at y tasglu ac yn disodli 'Tomenni' gyda 'Tomenni Glo'.

Yn dilyn ymlaen o'r uchod, holwyd pwy oedd yn monitro'r risgiau canolig a allai ddod yn risg uchel. Hysbyswyd yr Aelodau fod yr holl domenni yn yr ardal wedi'u dosbarthu o A-Ch, ac roedd y rhai a oedd o fewn perchnogaeth a rheolaeth y cyngor yn cael eu harolygu'n rheolaidd o ran eu risg; arolygwyd y rhai sydd â'r risg uchaf (dosbarth Ch) yn amlach na'r rhai sydd â'r risg isaf (dosbarth A). Cadarnhawyd, wrth arolygu'r risgiau canolig, y bydd Swyddogion yn penderfynu a oeddent wedi dirywio ai peidio; os felly, cânt eu hail-ddosbarthu a byddai'r arolygiadau'n cynyddu yn unol â hynny, neu fel arall byddai Swyddogion yn ceisio sicrhau cyllid i weithredu mesurau lliniaru.

Gofynnodd yr Aelodau i Swyddogion ymhelaethu ar y pwynt canlynol a nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd; adolygu'r potensial ar gyfer capasiti/rhyddhau neu leihau costau drwy wasanaethau mewnol a rennir neu drwy gydweithio allanol. Cadarnhaodd swyddogion y byddent yn casglu mwy o wybodaeth am hyn ac yn rhoi ymateb i'r Aelodau y tu allan i'r cyfarfod.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

<u>Chwarter 1 (1 Ebrill 2021 - 30 Mehefin 2021) Dangosyddion Perfformiad Allweddol y Cabinet</u>

Derbyniodd y Pwyllgor Ddangosyddion Perfformiad Allweddol y Cabinet ar gyfer Chwarter 1 (1 Ebrill 2021 - 30 Mehefin 2021).

Cyfeiriwyd at y dangosydd perfformiad a oedd yn ymwneud â chanran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd; roedd y perfformiad yn chwarter 1 wedi llithro yn erbyn y targedau oherwydd y pwysau presennol yn y gwasanaeth hwn. Gofynnodd Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a ellid anfon e-bost at yr holl Aelodau Etholedig i'w hysbysu o'r pwysau hyn, a bod ceisiadau cynllunio yn debygol o gymryd mwy o amser nag arfer nes i'r lefelau staffio wella.

Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith bod cydweithwyr yn y Gwasanaeth Cynllunio yn cael trafferth gyda'r llwyth gwaith gan fod nifer o swyddi gwag o fewn y gwasanaeth a galw mawr gan ddatblygwyr; roedd y cyngor ar fin cymryd rhan mewn proses recriwtio newydd oherwydd y materion o ran sicrhau staff cymwysedig a phrofiadol. Soniwyd y bydd hyn yn helpu i wella'r perfformiad wrth symud ymlaen; fodd bynnag, ar hyn o bryd roedd cydweithwyr yn ceisio delio â materion ar sail blaenoriaeth. Cadarnhawyd y byddai Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio yn anfon e-bost at yr holl Aelodau fel y soniwyd uchod.

Cynhaliwyd trafodaeth mewn perthynas â'r amser cyfartalog (mewn eiliadau) i ateb galwadau ffôn yn Gymraeg; Roedd yr Aelodau'n pryderu am y manylion a gynhwyswyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd yn erbyn y dangosydd perfformiad penodol hwn, a gofynnwyd beth oedd yn cael ei wneud i leihau faint o amser yr oedd yn ei gymryd i ateb galwad yn Gymraeg. Esboniodd y Prif Weithredwr fod problem gyffredinol gyda chysylltiad â chanolfan gyswllt y cyngor; roedd y system gweithio hybrid wedi profi'n broblemus pan roedd staff y switsfwrdd yn ceisio trosglwyddo galwadau i berson priodol. Nodwyd bod llawer o resymau gwahanol dros hyn, yn benodol problemau technegol gyda'r system; roedd hyn o ganlyniad i'r newid cyflym o ran sefydlu'r trefniadau gweithio gartref mae'n debyg. Hysbyswyd yr Aelodau fod y Prif Swyddog Digidol yn gweithio drwy'r gwahanol atebion ar hyn o bryd; fodd bynnag, roedd darn ehangach o waith i'w wneud dros y chwe mis nesaf yn ymwneud â'r strategaeth cyswllt. Nodwyd bod gan y cyngor fwy o siaradwyr Cymraeg yn y Gwasanaethau Cwsmeriaid nag erioed o'r blaen; fodd bynnag, tynnodd y dangosydd perfformiad sylw at y ffaith bod mwy o waith i'w wneud o hyd o ran hyn.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

<u>Adroddiad Blynyddol Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2020/2021</u>

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2020-2021 i'r Pwyllgor.

Tynnodd yr Aelodau sylw at bwysigrwydd Strategaeth Hybu'r Gymraeg, a dywedwyd bod angen ei chynnwys yng nghynlluniau adfer COVID-19 gyda gwasanaethau ac amcanion strategol eraill. Awgrymwyd bod adolygiad o'r Strategaeth yn cael ei gynnal gyda phartneriaid, i nodi ble a sut yr oedd angen gwneud cynnydd.

Soniodd y Prif Weithredwr y byddai'r cynllun adfer tymor hwy yn cael ei ddarparu i'r Aelodau ym mis Rhagfyr; fel rhan o'r cynllun hwn, roedd Swyddogion yn cynnig y dylid ffurfio amcan llesiant newydd a fydd yn canolbwyntio ar waith y cyngor mewn perthynas â'r amgylchedd, treftadaeth a diwylliant lleol. Nodwyd bod y themâu hyn wedi cael eu nodi'n gryf iawn gan breswylwyr a gymerodd ran yn yr ymgyrch Gadewch i Ni Siarad; bydd yr amcan llesiant newydd hwn yn galluogi Swyddogion i flaenoriaethu'r ffactorau hyn a rhoi mwy o ffocws iddynt. Cadarnhawyd y byddai'r Gymraeg yn cael ei chynnwys o fewn yr amcan llesiant cyffredinol; croesawodd swyddogion yr awgrym i adolygu'r strategaeth gyda phartneriaid. Hysbyswyd yr Aelodau mai un o ofynion safonau'r Gymraeg sy'n ymwneud â Strategaeth Hybu'r Gymraeg oedd cynnal gwerthusiad ac adolygiad o fewn cyfnod pum mlynedd y Strategaeth; yn dilyn cyhoeddi'r cynllun adfer, bydd Swyddogion yn gweithio ar ddatblygu Strategaeth Hybu'r Gymraeg newydd.

Roedd yr Aelodau'n cefnogi sicrhau bod y cyfnod adrodd yn cyd-fynd â strategaethau eraill, ond soniwyd bod y cyngor hanner ffordd drwy'r cyfnod adrodd nesaf ar hyn o bryd. Dywedodd swyddogion eu bod wedi gobeithio cyflwyno'r adroddiad hwn i'r Cabinet ym mis Medi ond yn anffodus nid oeddent wedi gallu gwneud hynny oherwydd problemau wrth gasglu gwybodaeth gan bartneriaid. Wrth symud ymlaen, cadarnhawyd y byddai Swyddogion yn ceisio cyflwyno adroddiadau blynyddol yn gynharach yn y flwyddyn.

Roedd yr adroddiad a ddosbarthwyd yn nodi mai un o'r camau gweithredu yn y Strategaeth oedd sicrhau bod clybiau chwaraeon yn cael eu hannog a'u cefnogi i ddefnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau clwb ffurfiol ac anffurfiol. Gofynnodd yr Aelodau pa gymorth a oedd yn cael ei ddarparu i helpu'r clybiau chwaraeon i annog hyn. Esboniodd swyddogion fod yr wybodaeth hon yn cael ei darparu gan un o bartneriaid y cyngor a byddai rhagor o fanylion yn cael eu ceisio a'u darparu i'r Aelodau yn unol â hynny.

Cododd yr Aelodau bwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg yn achlysurol, a gofynnwyd iddynt gael gwybod am unrhyw fathau o gynlluniau i hyrwyddo'r defnydd o Gymraeg achlysurol; bydd hyn yn caniatáu i Aelodau ddarparu'r wybodaeth i'w hetholwyr.

Rhoddodd yr Aelod Cabinet dros Addysg, Sgiliau a Diwylliant sicrwydd i'r Aelodau fod y Gymraeg a diwylliant Cymreig yn cael eu hyrwyddo'n barhaus drwy ysgolion Cymraeg a Saesneg.

Cyfeiriwyd at Grŵp Tasg a Gorffen Strategaeth Hybu'r Gymraeg a sefydlwyd ychydig flynyddoedd yn ôl i ddatblygu'r Strategaeth; holwyd sut yr oedd hyn yn cyd-fynd â'r gwaith presennol sy'n cael ei wneud a gwaith yn y dyfodol wrth symud ymlaen. Esboniodd swyddogion bob tro yr adroddwyd am gynnydd blynyddol, roedd yng ngoleuni'r gwaith a wnaed wrth ddatblygu'r Strategaeth gan y Grŵp Tasg a Gorffen. Soniwyd y gellid ailsefydlu'r Grŵp Tasg a Gorffen ar gyfer datblygu'r Strategaeth newydd, pe bai'r Aelodau o'r un farn.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth Lleol 2021

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau am y Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth wedi'i ddiweddaru (2020-2023).

Holwyd, pan fydd y cyngor yn derbyn ceisiadau am ddatblygiadau, faint o bwysoliad a fyddai'n cael ei roi ar yr agwedd bioamrywiaeth yn erbyn creu swyddi a'r economi. Dywedodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio fod cynllunio a'r broses benderfynu bob amser wedi bod yn weithred gydbwyso; mae'r cyngor yn cynnal ymgynghoriadau gydag ymgyngoreion statudol ac anstatudol, ac yn aml yn cael gwahaniaeth barn. Nodwyd mai rôl y Swyddog Cynllunio wedyn fyddai cydbwyso'r materion hynny, a llunio barn wybodus yn seiliedig ar bolisi ac arweiniad ar lefel genedlaethol a lleol. Hysbyswyd yr Aelodau fod yr agenda newid yn yr hinsawdd yn dod yn fwyfwy o flaenoriaeth; ac roedd y pwyslais ar ddatblygu amgylchedd cynaliadwy hefyd yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol, boed hynny o ran darpariaeth breswyl, yr economi neu'r amgylchedd naturiol. Dywedodd swyddogion y bydd y cyngor yn parhau i sicrhau y byddai'r elfennau hyn yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses benderfynu, ond roedd hefyd yn ofynnol iddo ystyried y buddiannau eraill gan eu bod yn benderfyniad materol ar geisiadau cynllunio. Ychwanegwyd bod y cyngor yn cymryd ei gyfrifoldeb yn ofalus iawn ac yn sicrhau cyllid i gychwyn rhai o'i gynlluniau bioamrywiaeth ei hun.

O ran y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl), nodwyd pan y bydd Swyddogion yn derbyn safleoedd yr ymgeiswyr ar gyfer y cynllun newydd, y byddant yn sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei hystyried wrth i'r gwaith uwchgynllunio gael ei wneud. Hysbyswyd yr Aelodau fod y cyngor eisoes wedi ymrwymo i'r Siarter Creu Lleoedd a oedd yn canolbwyntio ar greu cymunedau; sicrhau bod tai a swyddi ar gael, a hefyd yn eu cysylltu drwy isadeiledd gwyrdd. Dywedwyd y byddai Swyddogion yn cynnal asesiad isadeiledd gwyrdd a fydd yn edrych ar

deithio llesol a bioamrywiaeth; bydd hyn yn sicrhau bod pob elfen wedi'i hintegreiddio.

Canmolodd y Pwyllgor y Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth Lleol a diolchodd i'r Timau a fu'n rhan o waith y prosiect hwn.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynnig i'w ystyried gan Fwrdd y Cabinet.

## 2. BLAENRAGLEN WAITH

Nodwyd y Blaenraglen Waith.

**CADEIRYDD**

Mae'r dudalen hon yn fwriadol wag